

# PWYLLGOR SAFONAU

12 RHAGFYR 2022

**PRESENNOL:** Mrs M. Dodd (Cadeirydd) (P)

**Aelodau Annibynnol:**

Ms. D. Evans (P), Mrs. J. James (P), Mr. F. Phillips (H) a Mrs. C. Davies (H).

**Aelod Cymunedol:**

Cynghorydd Tref P. Rogers (H).

**Cynghorwyr:**

B. Jones (H) and R. James (H).

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;

A. Eynon, Prif Gyfieithydd;

E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

M, Runeckles, Swyddog Cefnogi Aelodau (Asiantaeth);

J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Cymerwr Cofnodion).

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**

M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

[P = Presennol yn Neuadd y Sir      H = Hirbell drwy Zoom]

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: 2:00yp - 2:45yp**

**[Sylwer:**

- Barnwyd gan y Cadeirydd bod angen newid trefn y busnes ar yr agenda a chymerwyd eitem 7 cyn eitem 6. Fodd bynnag, er hwylustod, mae'r cofnodion hyn yn adlewyrchu trefn y materion ar agenda'r cyfarfod.]

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan G.B. Thomas.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

Y Cynghorydd Rob James	6 – Cais am Ollyngiad gan y Cynghorydd A.R. Bargoli.	Mae gan y Cynghorydd James fuddiant rhagfarnol parhaus o ran y grŵp cymunedol Caru Lliedi.
------------------------	--	--

### 3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD A GYNHALWYD AR:

#### 3.1. 21 TACHWEDD 2022

Cyflwynwyd sylw bod y cofnodion yn nodi'n anghywir bod M. Dodd yn Gynghorydd.

**PENDERFYNWYD, yn amodol ar y diwygiad, fod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2022 yn cael eu llofnodi'n gofnod cywir.**

#### 3.2. 17 TACHWEDD 2022

**PENDERFYNWYD Ilofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2022 yn gywir.**

### 4. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD EDWARD THOMAS

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Edward Thomas o Gyngor Sir Caerfyrddin am ollyngiad o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â busnes o ran 30 Stryd y Bont, Llandeilo sydd mewn cyflwr gwael.

Dywedwyd bod cais am ollyngiad yn cael ei wneud gan fod gan y Cynghorydd Thomas fuddiant personol a rhagfarnol yn y mater hwn yn rhinwedd paragraff 10 (2)(a) o Gôd Ymddygiad yr Aelodau fel aelod lleol dros Llandeilo a Dyffryn Cennen a 30 Stryd y Bont, Llandeilo, sy'n ffinio â'i eiddo.

Nododd yr Aelodau nad oedd cais y Cynghorydd Edwards am ollyngiad er mwyn ymarfer unrhyw swyddogaethau gweithrediaeth neu gabinet mewn perthynas â'r eiddo, a phe byddai'r mater yn cael ei drafod mewn cyfarfod o'r Cyngor neu'r Cabinet, y byddai'n datgan buddiant ac ni fyddai'n cymryd rhan mewn unrhyw bleidlais.

Yn dilyn trafodaeth,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod gollyngiad yn cael ei ganiatáu o dan Reoliadau 2 (d) a (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 er mwyn galluogi'r Cynghorydd Edward Thomas fel yr aelod lleol dros Llandeilo a Dyffryn Cennen i SIARAD A CHYFLWYNO SYLWADAU YSGRIFENEDIG mewn perthynas â materion o ran 30 Stryd y Bont, Llandeilo a bod y gollyngiad yn ddilys tan ddiwedd y tymor etholiadol presennol.**

## 5. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD RUSSELL SPARKS

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Russell Sparks o Gyngor Sir Caerfyrddin am ollyngiad o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â busnes o ran darparu gwasanaethau hamdden yn y Sir, yn enwedig darparu pyllau nofio a gwersi nofio gan y Cyngor.

Dywedwyd bod cais am ollyngiad yn cael ei wneud gan fod gan y Cynghorydd Sparks fuddiant personol a rhagfarnol yn y mater hwn yn rhinwedd paragraff 10 (2)(a) o Gôd Ymddygiad yr Aelodau gan ei fod yn darparu gwasanaethau hamdden yn y Sir, yn enwedig yn y ddarpariaeth o byllau nofio a gwersi nofio gan y Cyngor.

Wrth ystyried y ffaith bod y Cynghorydd Sparks yn darparu gwersi nofio yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin, roedd Aelodau o'r farn na ddylai gollyngiad ymestyn i unrhyw fusnes y Cyngor ymwneud yn uniongyrchol â phwll nofio Canolfan Hamdden Caerfyrddin na'r ddarpariaeth o wersi nofio yn y pwll hwnnw.

Yn dilyn trafodaeth,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod gollyngiad yn cael ei ganiatáu o dan Reoliadau 2 (d) a (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 er mwyn galluogi'r Cynghorydd Russell Sparks i SIARAD A CHYFLWYNO SYLWADAU YSGRIFENEDIG YN UNIG OND NID PLEIDLEISIO yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin mewn perthynas ag unrhyw fusnes cyngor ac nad yw'r gollyngiad yn ymestyn i unrhyw fusnes cyngor o ran pwll nofio Canolfan Hamdden Caerfyrddin nac i'r ddarpariaeth o wersi nofio yn y pwll hwnnw.**

## 6. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD A. R. BRAGOLI

[Sylwer:

- Cafodd yr eitem hon ei hystyried ar ôl eitem 7 ar yr agenda.
- Roedd y Cynghorydd Rob James wedi datgan buddiant personol yn yr eitem hon yn gynharach felly gadawodd y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei hystyried].

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais a gyflwynodd gan y Cynghorydd Andrew Ronald Bragoli o Gyngor Tref Llanelli am ollyngiad o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â busnes o ran ystafelloedd newid Pen-y-gaer.

Dywedwyd bod cais am ollyngiad yn cael ei wneud gan fod gan y Cynghorydd Bragoli fuddiant personol a rhagfarnol yn y mater hwn yn rhinwedd paragraff 10 (2)(a) o Gôd Ymddygiad yr Aelodau gan ei fod yn aelod o grŵp cymunedol o'r enw Caru Lliedi sy'n gweithio gyda'r Cyngor Tref ar hyn o bryd mewn perthynas â chais am grant ar gyfer yr ystafelloedd newid.

Yn dilyn trafodaeth,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** fod gollyngiad yn cael ei ganiatáu o dan Reoliadau 2 (c), (d) a (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 er mwyn galluogi'r Cynghorydd Andrew Ronald Bragoli i SIARAD A CHYFLWYNO SYLWADAU YSGRIFENEDIG YN UNIG OND NID PLEIDLEISIO yng nghyfarfodydd Cyngor Tref Llanelli mewn perthynas ag unrhyw fusnes cyngor o ran Ystafelloedd Newid Pen-y-gaer.

## **7. PENDERFYNIADAU DIWEDDAR Y PANEL DYFARNU**

[Sylwer: Cafodd yr eitem hon ei hystyried cyn eitem 6 ar yr agenda.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried tri adroddiad ar wahân a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Banel Dyfarnu Cymru yn manylu ar ei ganfyddiadau yn achosion

- y Cyn-gynghorydd Paul Dowson;
- y Cyn-gynghorydd Caryl Vaughan;
- y Cyn-Gynghorydd Gordon Lewis.

Nododd y Pwyllgor nad yw'r 3 dan sylw bellach yn gwasanaethu fel cynghorwyr ond bod Panel Dyfarnu Cymru wedi rhoi cyfnodau gwahardd yn amrywio rhwng 1 a 3 blynedd.

Wrth gyfeirio at achos y cyn-Gynghorydd Dowson, amlygwyd pwysigrwydd cynnwys cyfeiriad at y defnydd o gyfryngau cymdeithasol mewn hyfforddiant Côt Ymddygiad a gofynnwyd am i hyn gael ei gynnwys yn yr hyfforddiant Côt Ymddygiad a ddarperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## **8. UNRHYW FATER ARALL**

Cyfeiriwyd at Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a'r gofyniad i ysgrifennu at Arweinwyr Grŵp presennol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r dyletswyddau newydd a osodwyd arnynt o dan y Ddeddf fel y trafodwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2022 [Cofnod 5 yn cyfeirio]. Gofynnwyd a oedd y llythyr yn cael ei ysgrifennu. Wrth roi sicrwydd i aelodau'r Pwyllgor bod yr arweinwyr grŵp yn gwbl ymwybodol o'u dyletswyddau yn unol â'r Ddeddf, cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fod llythyr drafft wedi'i baratoi a'i fod yn y broses o gael ei gwblhau.

Wrth sôn y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor dderbyn cynnydd ar ei gamau gweithredu, cynigiwyd bod cofrestr gweithredu dreigl a oedd yn rhoi statws cynnydd ar bob un o'r camau a godwyd mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau yn cael eu cynnwys ar agenda arferol pob cyfarfod Pwyllgor fel eitem agenda safonol. Eiliwyd y cynnig hwn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** fod cofrestr gweithredu yn cael ei chynnwys ar agenda arferol pob cyfarfod Pwyllgor fel eitem agenda safonol.

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**